

Canllaw i ymgeiswyr ar dreuliau

Cewch chi a'ch dau brif dyst hawlio treuliau teithio.

Bydd ein clerc yn rhoi ffurflen hawlio ichi yn y gwrandawriad. Os na chewch un, a chithau am hawlio treuliau, gofynnwch am ffurflen ar ôl y gwrandawriad.

Dylech ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo'n bosibl. Nid ydym yn talu costau tacsï oni bai bod yna amgylchiadau **eithriadol**. Efallai y byddwch am ein ffonio ar 0300 025 9800 i holi p'un a ydym yn fodlon talu am eich taith dacsï.

Cewch hawlio treuliau teithio ar eich rhan eich hun, ar ran eich plentyn, ac ar ran unrhyw un a ddaw gyda chi i ofalu amdano ef neu amdani hi:	<ul style="list-style-type: none">• Tocynnau trên dosbarth safonol;• Tocynnau bws neu dram;• Milltiroedd mewn car (ar sail 31.4 ceiniog y filltir).
Ni chewch hawlio:	<ul style="list-style-type: none">• Unrhyw dreuliau ar ran eich cynrychiolydd;• Unrhyw dreuliau ar ran unigolion sy'n arsylwi neu bobl nad ydynt yn ymwneud â'r gwrandawriad;• Costau parcio eich car;• Costau tollau;• Costau bwyd neu ddiod;• Cyflog a gollir.
Rhaid ichi:	<ul style="list-style-type: none">• anfon eich hawliad o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y gwrandawriad;• gwneud yn siwr eich bod yn llenwi pob adran angenrheidiol fel y gallwn dalu eich treuliau yn gyflym;• anfon y tocynnau a'r derbynebaw gyda'ch ffurflen hawlio. Ni wnaiff y tribiwnlys dalu'r treuliau heb y rhain.

Byddwn yn gwneud ein gorau i dalu eich treuliau cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os bydd aros am yr arian yn creu trafferthion ariannol ichi, rhowch wybod inni o leiaf wythnos cyn y gwrandawriad. Byddwn wedyn yn trefnu i dalu eich treuliau ar y diwrnod.

Mae canllawiau eraill ar gael ar gyfer tystion, a'ch cyfrifoldeb chi yw gofalu bod eich tystion yn gweld copi o'n llyfryn *Canllaw i dystion ar dreuliau (ETW19)* er mwyn iddynt wybod pa dreuliau y cânt eu hawlio.